

Mynediad at feddyginiaeth diwedd oes yng Nghymru 2023-24

Papur Briffio

Mehefin 2025

1. Cyflwyniad

Mae mynediad amserol at feddyginiaeth diwedd oes yn rhan hanfodol o ofal lliniarol a diwedd oes.

Gall rheoli symptomau yn effeithiol ar ddiwedd oes trwy gael mynediad at feddyginiaeth helpu osgoi trallod diangen i gleifion a gofalwyr a lleihau defnydd argyfwng ac heb ei gynllunio o wasanaethau.¹ Er bod gan bob claf anghenion unigol, gellir rhagweld llawer o ddigwyddiadau aciwt yn ystod y cyfnod lliniarol a rhoi mesurau rheoli ar waith.²

Fodd bynnag, mae ymchwil wedi dangos, er bod meddyginiaethau yn gallu cael eu rhagnodi, eu casglu a'u gweinyddu yn y rhan fwyaf o ardaloedd, yn ymarferol mae meddyginiaeth yn aml ar gael yn rhannol yn unig, yn anodd i'w cyrraedd neu'n gofyn am amseroedd aros hir.³

Gall rhwystrau ymwneud ag argaeledd a mynediad. Ni fydd fferyllfeydd cymunedol bob amser yn stocio meddyginiaeth diwedd oes, gan nad ydynt yn cael eu dosbarthu'n rheolaidd.⁴ Mae problemau hefyd wedi'u nodi wrth gael mynediad at feddyginiaeth, yn enwedig ar benwythnosau a dros nos.⁵ Mewn gwirionedd, gall fod cael mynediad at feddyginiaethau angen,

¹ Marie Curie (2022) *Better End of Life 2022 Policy commentary on Mind the Gaps: understanding and improving out-of-hours care for people with advanced illness and their informal carers*

² BMA "Anticipatory prescribing for end of life" <https://www.bma.org.uk/advice-and-support/gp-practices/prescribing/anticipatory-prescribing-for-end-of-life-care> [Cyrchwyd 23/04/2025]

³ Marie Curie (2022) *Better End of Life 2022 Policy commentary on Mind the Gaps*

⁴ Marie Curie (2024) *Diwedd Oes Gwell 2024 Amser i Ofalu yng Nghymru Goblygiadau i Gymru yn sgil 'Amser i ofalu: Canfyddiadau arolwg cynrychiolaeth genedlaethol o brofiadau diwedd oes yng Nghymru a Lloegr' Briff Polisi*

⁵ Ibid.

gwaith cydlynu sylweddol i gleifion, teuluoedd, gofalwyr a / neu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol – yn aml oherwydd bod rhannau o'r broses fynediad yn gweithio'n wael.⁶

Un canlyniad posib o fynediad gwael at feddyginiaeth yw rheolaeth symptomau gwael. Canfu arolwg ar ôl profedigaeth a gynhaliwyd yn 2022 fod 36% o bobl a fu farw yng Nghymru yn cael eu heffeithio'n ddifrifol neu'n llethol gan boen yn ystod eu hwythnos olaf, a 40% wedi cael eu heffeithio'n ddifrifol neu'n llethol gan ddiffyg anadl.⁷

Mae oedi mewn fynediad at feddyginiaeth wedi bod yn gysylltiedig â:⁸

- Gwasanaethau meddygon teulu.
- Diffyg meddyginiaethau mewn fferyllfeydd cymunedol.
- Diffyg fynediad arbenigwyr nyrsio gofal lliniarol i bresgripsiynu electronig.
- Mynediad cyfyngedig i weithwyr gofal iechyd proffesiynol i gofnodion presgripsiynu electronig cleifion a rennir.

Gall fferyllwyr cymunedol chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi fynediad at feddyginiaeth ar ddiwedd oes, ond yn rhy aml nid ydynt yn ymwneud yn ddigonol â'r fîm amlddisgyblaethol nac yn cael gwybodaeth am eu cleifion. Canfu arolwg o fferyllwyr yng Nghymru yn 2018 nad oedd 63% erioed wedi cael eu hysbysu bod person oeddynt yn gofalu amdano ar gofrestr gofal lliniarol, ac nad oedd 81% erioed wedi gweld cynllun gofal uwch ar gyfer claf.⁹

Er mwyn deall argaeledd a hygyrchedd meddyginiaeth diwedd oes yng Nghymru yn well, cynhaliwyd dadansoddiad o'r data presennol ac ymatebion Rhyddid Gwybodaeth (FOI) gan bob un o'r saith bwrdd iechyd. Mae'r papur hwn yn nodi canfyddiadau'r ymarfer hwn ac yn darparu man cychwyn ar gyfer ymchwil bellach i benderfynu a oes gan bobl sy'n byw gyda salwch terfynol yng Nghymru fynediad cyson ac amserol at feddyginiaeth.

⁶ Latter, S. et. al (2022) "Patient and carer access to medicines at end of life: the ActMed mixed methods study" *Health Services and Delivery Research*, Vol. 10, Issue: 20

⁷ Marie Curie (2024) *Gwell diwedd oes 2024 Amser i Ofalu yng Nghymru Goblygiadau i Gymru o 'Amser i ofalu: Canfyddiadau arolwg cynrychioliadol cenedlaethol o brofiadau ar ddiwedd oes yng Nghymru a Lloegr*

⁸ Latter, S. at al (2022) "Patient and carer access to medicines at end of life: the ActMed mixed methods study"

⁹ Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Cymru (2018) *Gofal Lliniarol a Diwedd Oes: Cyfraniad fferylliaeth i ofal gwell i gleifion*

2. Rhagnodi rhagarweiniol a phecynnau Wrth Gefn

Gellir gwella mynediad at feddyginiaeth ar ddiwedd oes trwy ddefnyddio rhagnodi rhagarweiniol, a elwir hefyd yn becynnau Wrth Gefn. Mae hyn yn golygu darparu meddyginiaeth ymlaen llaw i bobl ar ddiwedd oes, y gellir ei darparu i rywun yn gyflym os oes ganddynt symptomau sydyn, gofidus fel poen neu gynnwrf.¹⁰

Mae rhagnodi rhagarweiniol yn sicrhau bod cyflenwad o gyffuriau yng nghartref y claf, bod ganddynt yr offer sydd ei angen i'w gweinyddu ac mae cyffuriau ar gael i glinigydd sy'n mynychu pan fo hynny'n briodol.¹¹

Er nad yw'n *panacea*, gall rhagnodi rhagflaenol helpu i liniaru heriau fel y rhai a amlinellir uchod, ond dim ond pan fydd anghenion yn cael eu cydnabod yn gynnar.¹²

3. Methodoleg

Cynhaliwyd dadansoddiad o'r data sydd ar gael drwy StatsCymru i bennu nifer y fferyllfeydd cymunedol sy'n cynnig y cynllun Wrth Gefn y cytunwyd arno'n genedlaethol ac a gomisiynwyd yn lleol yn 2023-24. Defnyddiwyd y setiau data canlynol:

- [Fferyllfeydd cymunedol yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol a blwyddyn](#)
- [Gwasanaethau a ddarperir mewn fferyllfeydd cymunedol yn ôl bwrdd iechyd lleol](#)

Ym mis Mai 2025, anfonwyd ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth at bob un o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru; gofynnwyd nifer o gwestiynau yn ddibynnol ar a oedd data yn dangos bod y cynllun Wrth Gefn a gytunwyd yn genedlaethol ac a gomisiynwyd yn lleol yn weithredol.

Gofynnwyd y canlynol i fyrddau iechyd lle'r oedd y cynllun Wrth Gefn ar waith:

- Rhowch ffigur ar gyfer faint o becynnau Wrth Gefn y cyflenwyd i gleifion yn 2023-24.

¹⁰ Marie Curie "Just in case medications"

<https://www.mariecurie.org.uk/information/symptoms/just-in-case-medication#:~:text=A%20doctor%20or%20specialist%20nurse%20will%20prescribe%20the%20medicines%20before,specialist%20nurse%20or%20district%20nurse>. [Cyrchwyd 28/24/2025]

¹¹ BMA "Anticipatory prescribing for end of life"

¹² Marie Curie (2022) *Policy commentary on Mind the Gaps*

- Nodwch ffigwr ar gyfer faint o fferyllfeydd cymunedol a gomisiynwyd i gynnal cyflenwad estynedig o feddyginiaethau diwedd oes yn 2023-24.
- Cadarnhewch a ddarparwyd y pecyn CARIAD¹³ i ofalwyr.

Gofynnwyd yr uchod i fyrddau iechyd lle nad oedd y cynllun Wrth Gefn yn gweithredu, yn ogystal â'r cwestiynau ychwanegol canlynol:

- A oedd yna ddewis arall heblaw'r bocs Wrth Gefn a gyfunwyd yn genedlaethol ac a gomisiynwyd yn lleol ar waith?
- Sawl fferyllfa cymunedol a gomisiynwyd i ddarparu'r gwasanaeth amgen hwn yn 2023-24?

Ymatebodd pob un o'r saith bwrdd iechyd yn llawn i'r cwestiynau a ofynnwyd iddynt.

4. Cyd-destun polisi Cymru

Yng Nghymru, mae nifer o bolisiau sy'n berthnasol i ddarparu meddyginiaeth i bobl ar ddiwedd oes:

- Mae'r **datganiad ansawdd ar gyfer gofal lliniarol a diwedd oes** yn nodi y dylai pobl gael "mynediad unigol 24/7 at ofal wedi'i gydlynu, meddyginiaethau, a chynghor ynglŷn â gofal diwedd oes, ble bynnag y maen nhw wedi eu lleoli yng Nghymru i leihau gofid a'r tebygolrwydd o'u derbyn yn ddiangen i ofal eilaidd."¹⁴
- Nodir bod y **Gwasanaeth Bocs Wrth Gefn Cenedlaethol** yn cael ei gomisiynu mewn pump o'r saith bwrdd iechyd.¹⁵ Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu mynediad i'r rhai sydd â phresgripsiwn dilys i becyn Wrth Gefn gan unrhyw fferyllfa sy'n cyfranogi.¹⁶ Bydd y bocs Wrth Gefn yn cynnwys meddyginiaeth i drin pedwar math o symptom – poen, cyfog/chwydu, anadlol a

¹³ Mae'r pecyn CARIAD yn cefnogi gofalwyr parod ac abl i weinyddu meddyginiaeth isgroenol heb nodwyddau yn ôl yr angen ar gyfer symptomau arloesol cyffredin yn nyddiau olaf bywyd. <https://perfformiadagwella.gig.cymru/swyddogaethau/rhwydweithiau-a-chynllunio/gofal-lliniarol-a-diwedd-oes/geithwyr-proffesiynol/pecyn-cariad/>. [Cyrchwyd 05/06/2025]

¹⁴ Llywodraeth Cymru "Y datganiad ansawdd ar gyfer gofal lliniarol a diwedd oes" <https://www.gov.wales/quality-statement-palliative-and-end-life-care-wales-html> [Cyrchwyd 28/04/2025]

¹⁵ Fferyllaeth Gymunedol Cymru "National Just in Case Pack Service" <https://cpwales.org.uk/clinical-services-2/additional-clinical-services/national-just-in-case-pack-service-d10/> [Cyrchwyd 28/04/2025]

¹⁶ Ibid.

phryder.¹⁷ Mae Byrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi datblygu dewisiadau amgen eraill ar gyfer rhagnodi meddyginiaethau gofal lliniarol.¹⁸ Roedd hi'n bosib dod o hyd i wybodaeth gyfyngedig ar-lein am y gwasanaethau hyn.¹⁹

- Yn ogystal, mae'r **Fframwaith Cytundebol Fferylliaeth Gymunedol** wedi'i ddiwygio yn ystod y blynyddoedd diwethaf i integreiddio fferylliaeth gymunedol yn well o fewn clystyrau gofal sylfaenol.²⁰ Dywedodd Llywodraeth Cymru "... dylai pobl yng Nghymru allu disgwyl i wasanaethau sydd ar gael mewn un fferyllfa fod ar gael yn ddibynadwy ynddynt i gyd..²¹

5. Canfyddiadau: Gwasanaeth bocs Wrth Gefn

5.1. A oes gwasanaeth bocs Wrth Gefn ar gael?

Roedd y gwasanaeth bocs Wrth Gefn y cytunwyd arno'n genedlaethol ar gael mewn [pedair](#) ardal bwrdd iechyd yn 2023-24 – **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe** a **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**.

Mae Tabl Un yn nodi nifer y fferyllfeydd cymunedol a gomisiynwyd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn y pedair ardal bwrdd iechyd hyn.

Tabl Un: Argaeledd y gwasanaeth pecyn Wrth Gefn y cytunwyd arno'n genedlaethol, a gomisiynwyd yn lleol

Bwrdd Iechyd	Nifer y fferyllfeydd sydd wedi'u cofrestru i ddarparu gwasanaeth Wrth Gefn	Canran y fferyllfeydd sydd wedi'u cofrestru i ddarparu gwasanaeth Wrth Gefn
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	90	83%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	85	89%
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	13	57%

¹⁷ Ibid.

¹⁸ Ibid.

¹⁹ Roedd manyleb gwasanaeth 2020 ar gyfer hybiau meddyginiaethau gofal diwedd oes yn Betsi Cadwalader ar gael drwy Fferyllfa Gymunedol Cymru. <https://cpwales.org.uk/wp-content/uploads/2023/11/BCU-LAC-EoLC-Medicines-Hub-Enhanced-Service-v1-Agreed-with-CPW-24-Jun-2020-1.pdf> [cyrchwyd 28/04/2025].

²⁰ Llywodraeth Cymru (2021) *Presgripsiwn newydd: dyfodol fferylliaeth gymunedol yng Nghymru*

²¹ Ibid.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	54	59%
-------------------------------------	----	-----

Ym **Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**, roedd y gwasanaeth Hwb Meddyginiaethau Diwedd Oes lleol ar waith yn 2023-24. Comisiynwyd 11 fferyllfa gymunedol i ddarparu'r gwasanaeth hwn, sy'n cyfateb i 8% o fferyllfeydd cymunedol yn ardal y bwrdd iechyd. Disodlwyd y gwasanaeth lleol hwn gan y gwasanaeth a gomisiynwyd yn genedlaethol ym mis Ebrill 2024.

Nid oedd bocsys Wrth Gefn ar gael ym **Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** na chwaith **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**.


5.2. Sawl bocsys Wrth Gefn y rhagnodwyd?

Mae nifer y pecynnau Wrth Gefn yn amrywio'n sylweddol ar draws y pedair ardal bwrdd iechyd lle roedd y gwasanaeth a gomisiynwyd yn lleol ar gael. Llunir hyn yn rhannol gan nifer y bobl ar ddiwedd oes mewn gwahanol rannau yng Nghymru, yn ogystal â ffactorau ehangach.

Dylid nodi hefyd bod y data hwn yn dangos sawl bocsys Wrth Gefn y rhagnodwyd, nid faint o bobl a ddefnyddiodd y gwasanaeth. Efallai bod rhai cleifion wedi cael eu rhagnodi sawl bocsys Wrth Gefn, tra bod eraill hebddynt.

Tabl Dau: Nifer y pecynnau Wrth Gefn a rhagnodwyd yn 2023-24

Bwrdd Iechyd	Nifer y pecynnau rhagnodedig
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	99
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	658
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	164
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	41



Nid oedd unrhyw pecynnau Wrth Gefn wedi'u rhagnodi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr drwy'r cynllun amgen a oedd ar waith yn 2023-24.

6. Canfyddiadau: Comisiynu Cyflenwad Estynedig a Gwasanaeth Meddyginiaeth Frys


Ffordd arall o sicrhau mynediad at feddyginiaethau diwedd oes yw comisiynu fferyllfeydd cymunedol i gynnal cyflenwad estynedig o feddyginiaethau cyffredin sydd eu hangen ar bobl sy'n byw gyda salwch terfynol. Weithiau cyfunir hyn â gwasanaeth y tu allan i oriau i sicrhau mynediad amserol ymhellach.

Comisiynwyd fferyllfeydd cymunedol ym mhob un o'r saith ardal bwrdd iechyd i gynnal cyflenwad estynedig. Cyfeiriodd rhai byrddau iechyd at hyn fel y Gwasanaeth Meddyginiaeth Brys.

Tabl Tri: Nifer a chanran y fferyllfeydd cymunedol a gomisiynwyd i gynnal cyflenwad estynedig o feddyginiaeth diwedd oes

Bwrdd Iechyd	Nifer y fferyllfeydd sydd wedi'u cofrestru i gynnal cyflenwad estynedig	Canran y fferyllfeydd sydd wedi'u cofrestru i gynnal cyflenwad estynedig
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	26	21%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	11	8%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	25	25%

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	16	15%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	16	17%
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	4	17%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	21	23%



7. Canfyddiadau: Pecyn CARIAD

Mae'r pecyn CARIAD yn cefnogi gofalmwyr parod ac abl i weinyddu meddyginiaeth isgroenol heb nodwyddau yn ôl yr angen ar gyfer symptomau cyffredin dyddiau olaf bywyd.

Dim ond [dau](#) fwrdd iechyd a gadarnhaodd fod pecyn CARIAD ar gael yn eu hardal – [Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwalader](#) a [Bwrdd Iechyd Addysgu Powys](#). Ym Mhowys, roedd y pecyn ar gael ym mhob man heblaw Ystradgynlais. Nid yw'r gwasanaeth ar gael yn y pum ardal arall o'r bwrdd iechyd.

8. Casgliad

Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos bod anghysondeb ledled Cymru o ran argaeledd a hygyrchedd meddyginiaethau diwedd oes. Er mai dim ond darlun rhannol y gall dadansoddiad data o'r math hwn ddarparu, mae'n

awgrymu bod profiadau pobl sy'n wael yn derfynol ledled Cymru yn debygol o fod yn wahanol iawn mewn perthynas â mynediad at feddyginiaeth.

Bydd yr anghysondeb hwn yn ei gwneud hi'n anoddach cyflawni nodau'r datganiad ansawdd ar ofal lliniarol a diwedd oes, ac i fesur cynnydd.

Mae angen ymchwil pellach i ddeall sut mae'r anghysondeb hwn yn y ddarpariaeth yn effeithio ar bobl sy'n byw gyda salwch angheuol, ac a yw'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd heb wasanaeth pecyn Wrth Gefn, neu gyda dim ond nifer fach o fferyllfeydd cymunedol wedi'u comisiynu i gynnal cyflenwadau estynedig o feddyginiaeth, yn cael eu heffeithio'n negyddol.

Yn ogystal, dylai dadansoddiad yn y dyfodol ystyried lledaeniad daearyddol fferyllfeydd a gomisiynwyd o fewn bwrdd iechyd i gynnal cyflenwad estynedig ac/neu darparu gwasanaethau y tu allan i oriau er mwyn penderfynu a yw mynediad yn deg yn yr holl ardal.